Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Gwrandawiad cyn penodi - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ionawr 2024

## 1. Cyflwyniad

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**1.** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda gweithlu o dros 19,000 o bobl. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

**2.** Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol a meddyliol yn ogystal â gwasanaethau ysbyty acíwt. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol.

**3.** Mae hefyd yn cyd-drefnu gwaith 96 practis meddyg teulu, a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan 83 o bractisau deintyddol ac orthodonteg, 69 o bractisau optometreg ac optegwyr a 147 o fferyllfeydd yng ngogledd Cymru.

**4.** Ar 27 Chwefror 2023, cafodd y bwrdd iechyd ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig. Roedd yr uwchgyfeirio i fesurau arbennig yn adlewyrchu pryderon difrifol sydd wedi bodoli ers tro ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethiant, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheoli ariannol.

**5.** Mesurau arbennig yw'r lefel uchaf o uwchgyfeirio yn fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru. Mae nifer o feysydd sy'n peri pryder a arweiniodd at statws mesurau arbennig y sefydliad. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y fframwaith mesurau arbennig[1] y cytunwyd arnynt â'r bwrdd iechyd. Bydd pob un o'r rhain yn cael ymyrraeth wedi'i thargedu, cymorth a chynlluniau isgyfeirio. Bydd y cynllun ymyrraeth ar gyfer pob maes yn bwydo i'r broses mesurau arbennig cyffredinol, a fydd yn cynnwys meysydd a oedd o dan y statws ymyrraeth wedi'i thargedu yn flaenorol.

# 2. Y broses o gynnal gwrandawiad cyn penodi

## Y broses

**6.** Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach ar y gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno.

**7.** Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi ai peidio.

## Gwrandawiad cyn penodi

**8.** Ar 24 Ionawr 2024, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi gyda Dyfed Edwards, Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**9.** I lywio'r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses ("papur briffio Llywodraeth Cymru"), ffurflen gais, CV a datganiad ategol Dyfed Edwards ynghyd â chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r ymgeisydd a ffefrir gwblhau holiadur cyn y gwrandawiad.

[1] Fframwaith mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Mawrth i Ragfyr 2023

# 3. Y broses recriwtio

**10.** Cafodd y swydd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 27 Medi a 20 Hydref 2023.

**11.** Cynhaliwyd sesiwn i randdeiliaid ar 28 Tachwedd 2023. Roedd aelodau'r sesiwn i randdeiliaid yn gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd, eu partneriaid a'u rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymgeiswyr gyflwyno cyflwyniad 15 munud ar y pwnc, "Sut ydych chi'n newid diwylliant ar draws ardal fawr a sawl safle?".

**12.** Derbyniwyd un cais ac argymhellwyd yr ymgeisydd i gael cyfweliad. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 29 Tachwedd 2023.

## Manyleb y swydd a'r person

**13.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y cadeirydd fod yn amodol ar wrandawiad cyn penodi, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor.

**14.** Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad yr awdurdod a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru. Mae cyfrifoldebau manwl y Cadeirydd i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr .

# 4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

## Y cefndir

**15.** Dyfed Edwards, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd. Mae ganddo gefndir mewn llywodraeth leol, fel cyn-arweinydd Cyngor Gwynedd ac fel Aelod a llefarydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae ganddo hefyd brofiad mewn addysg, fel cyn berchennog busnes bach ac fel gwirfoddolwr gyda chyrff trydydd sector.

**16.** Dyma a nododd yn yr holiadur cyn penodi:

> *Dwi'n teimlo'n angerddol dros wasanaethau cyhoeddus. Neu, yn hytrach, dros geisio creu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog a blaengar sydd yn darparu cymorth, cefnogaeth ac arweiniad i bobl Cymru. I mi, dyma ran o'r agenda i greu Cymru Decach a chyfundrefn bydd yn galluogi pobl i fyw eu bywydau i'w llawn potensial.*
>
> *Mae iechyd, a'r system iechyd a gofal yn gonglfaen bwysig yn hyn o beth: mae'n cyffwrdd bywydau pob un ohonom ar adegau gwahanol o'n bywydau ac yn rhan allweddol o'r gwead cymdeithasol sydd yn cynnal ein cymunedau ledled y gogledd.*
>
> *Dwi wedi byw a gweithio yn y gogledd trwy gydol fy oes. Mae aelodau o'r teulu wedi gweithio neu'n parhau i weithio i'r gwasanaeth iechyd yn lleol. Dwi wedi profi'r GIG yn uniongyrchol yn llythrennol o'r crud i'r bedd ac wedi teimlo'n ddiolchgar am y gefnogaeth bob amser.*
>
> *Ond bellach mae'n deg dweud bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn tanberfformio ac yn disgyn yn fyr o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf. Yn wir, gyda'r Bwrdd mewn mesurau arbennig, gellir disgrifio'r sefyllfa fel un annerbyniol ac un ble mae angen cyfeiriad newydd.*

## Ein barn ni

**17.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**18.** Yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â'r ymgeisydd a ffefrir, Dyfed Edwards. Gwnaethom drafod ei brofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys rolau mewn llywodraeth leol, addysg a'r sector preifat. Cadarnhaodd Mr Edwards, pe bai'n cael ei benodi, y byddai'n gadael y rolau y mae wedi'i benodi iddynt ar hyn o bryd a allai arwain at wrthdaro buddiannau, neu y gellir ei ddehongli fel gwrthdaro buddiannau.

**19.** Buom yn siarad am ddiwylliant ac arweinyddiaeth; a phwysigrwydd sicrhau bod staff yn gallu cymryd rhan yn nyfodol y bwrdd iechyd. Tynnodd Mr Edwards sylw at yr angen i sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn weledol, fel bod staff yn gallu

gweld y Cadeirydd ar y ward, neu'r Prif Weithredwr yn y ffreutur. Dywedodd ei fod wedi gwneud sawl ymweliad â lleoliadau ar draws yr ardal gyfan a'i fod wedi ymweld ag Ysbyty Gwynedd ar Ddydd Nadolig i ddiolch i'r staff am weithio ar Ddydd Nadolig. Roedd pwyllgor pobl a diwylliant wedi'i sefydlu a oedd yn galluogi staff i siarad yn uniongyrchol â'r bwrdd. Roedd yn cydnabod na fyddai ymgysylltu â staff yn hawdd, oherwydd yr ardal yr oedd y bwrdd iechyd yn ei chwmpasu a nifer y staff dan sylw, ond dywedodd ei fod yn awyddus iawn i'r holl staff deimlo bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth helpu i unioni pethau yn y bwrdd iechyd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhai sydd mewn swyddi arweinyddiaeth.

**20.** Gwnaethom ofyn i Mr Edwards am gyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd, staff, cleifion a'r cyhoedd a sut y byddai'n meithrin diwylliant a oedd yn annog pobl i godi pryderon a bod yn hyderus y byddant yn cael sylw priodol. Dywedodd pan oedd sefydliad mewn lle anodd, gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yn destun mesurau arbennig, ei bod yn hawdd cilio, codi'r bont godi a bod yn amddiffynnol iawn. Dywedodd ei fod yn ceisio gwneud y gwrthwyneb a bod yn agored ac yn dryloyw ac ymgysylltu â phobl. Rhoddodd enghraifft o gyfarfod cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd ym Metws-y-Coed oherwydd pryderon am y feddygfa yno. Roedd 150 o bobl wedi mynychu ac wedi gallu siarad ag ef, y Prif Weithredwr a phobl allweddol eraill o'r bwrdd iechyd, am eu pryderon. Dywedodd fod y parodrwydd hwn i fod yn agored, i fod yn bresennol, ac i gael y trafodaethau hynny, yn bwysig iawn.

**21.** Yn olaf, buom yn siarad am bwysigrwydd y berthynas rhwng y bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol a'r gallu i ddarparu her adeiladol a monitro perfformiad tra'n parhau i gefnogi cyflawniad nodau'r sefydliad. Tynnodd Mr Edwards sylw at bwysigrwydd cydgyfrifoldeb i sicrhau canlyniadau a fyddai'n gwella iechyd y boblogaeth. Dywedodd fod gan bawb ran i'w chwarae, a'i fod yn ddull tîm ond ei fod yn bwysig iawn nodi, er mwyn i bobl ddeall, lle y mae eu cyfraniad a sut mae'r dull hwnnw'n golygu y gall pawb helpu'r sefydliad i symud ymlaen.

**Casgliad 1.** Ar sail ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawiad cyn penodi, ni wyddom am unrhyw reswm pam na ddylai Dyfed Edwards, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei benodi i swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**22.** Os caiff Mr Edwards ei benodi, dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu'n adeiladol ar ei waith fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod cyfnod y Senedd hon.